SAIN TATHAN – CARTREF I'R ACADEMI DECHNEGOL AMDDIFFYN A'R PARC AWYROFOD

Annwyl Syr neu Fadam,

Fel y gwyddoch mai'n siŵr, rydym ar hyn o bryd yn cynnal rhaglen eang o ymgynghoriadau cyhoeddus ynglŷn â'r cynigion ar gyfer ailddatblygu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Sain Tathan. Bydd y datblygiad yn bennaf yn cynnwys Academi Dechnegol Amddiffyn, gyda thai a chyfleusterau cysylltiol, a Pharc Busnes Awyrofod, a fydd, drwy greu swyddi newydd a buddsoddiad yn yr economi leol a rhanbarthol, yn gyfle cyffrous iawn i'r ardal.

Wedi cwblhau cam cyntaf yr ymgynghoriad - arddangosfeydd cyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngorffennaf 2008 yn Sain Tathan, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr - mae'n bleser nawr gennym gyhoeddi y byddwn yn cynnal cyfres o weithdai a grwpiau buddiant yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y digwyddiadau hyn yn darparu cyfle i ni drafod nifer o bynciau mewn mwy o fanylder gydag aelodau'r gymuned leol ac estynnir croeso cynnes i chi fynychu un neu fwy ohonynt.

Detholwyd y pynciau dan sylw ar gyfer y gweithdai a'r grwpiau buddiant fel meysydd o ddiddordeb allweddol i'r gymuned leol o ganlyniad yr adborth a dderbyniwyd adeg yr arddangosfeydd cyhoeddus. Bydd y ddau weithdy cyntaf yn canolbwyntio ar Gludiant a Chyfleusterau Cymunedol ac mae'r dyddiau a'r lleoliadau fel a ganlyn:

Pwnc	**Pryd**	**Ble**
Cyfleusterau Cymunedol	Dydd Iau 04 Rhagfyr	Clwb Golff RAF Sain Tathan, Heol Clive, Sain Tathan, CF62 4JD
Cludiant	Dydd Mawrth 9 Rhagfyr	Y Man Ymgynnull, Flemingston Road, Sain Tathan, CF62 4JH

Bydd y ddau weithdy yn galluogi'r mynychwyr i gael hyd i fwy o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r pwnc a chaniatáu tîm prosiect Sain Tathan i geisio barn y gymuned ynglŷn ag elfennau penodol o'r cynllun drafft i ailddatblygu'r safle. Cynhelir dau grŵp buddiant a fydd yn ystyried yr Amgylchedd a Lles y Gymuned ar ddechrau 2009 a darperir cyfle i'r tîm prosiect rhannu unrhyw fanylion pellach a chlywed barn a sylwadau'r mynychwyr.

Mae eich barn yn cyfri o ddifri a gobeithiwn y gwnewch fanteisio ar y cyfle hwn i gymryd rhan yn yr hyn a ddylai fod yn gyfres o ddigwyddiadau diddorol a chynhyrchiol. Os hoffech fynychu, a fyddech cystal â llenwi a dychwelyd y ffurflen amgaeedig erbyn 1 Rhagfyr.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar 0845 618 0016. Gallwch hefyd yrru e-bost atom ar enquiries@st-athanconsultation.co.uk neu ysgrifennu atom yn Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (St Athan), Eagle Tower, Montpelier Drive, Cheltenham, GL50 1TA

Yn gywir,

Mike Grimmel
Rheolwr Prosiect
Metrix UK

Ed Bampton
Cyfarwyddwr Prosiect Sain Tathan
Llywodraeth Cynulliad Cymru

SAIN TATHAN – CARTREF I'R ACADEMI DECHNEGOL AMDDIFFYN A'R PARC AWYROFOD

GWEITHDAI A GRWPIAU BUDDIANT

Hoffwn fynychu'r gweithdai canlynol:

Cyfleusterau Cymunedol ☐

Cludiant ☐

Mae gennyf ddiddordeb i fynychu'r grwpiau buddiant a ganlyn a hoffwn petai chi'n cysylltu â mi pan fydd gwybodaeth bellach ar gael:

Amgylchedd ☐

Lles y Gymuned ☐

Dyma fy manylion cyswllt:

Enw _____

Cyfeiriad _____

_____

_____

Rhif Ffôn _____

E-bost _____

Hoffwn petai modd trafod y pynciau hyn mewn mwy o fanylder adeg y gweithdai a'r grwpiau buddiant:

Dychwelwch at:
Freepost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (St Athan),
Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA